Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Nwyddau: **Rhesins**

Rhesins, MiFruta, Chile
Cymuned Dwyrain Affrica, De Affrica

1. I ffermwyr grawnwin MiFruta yn Chile, mae'r broses yn dechrau ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r ffermwyr yn tocio'u perllannau ac yn taenu gwrtaith.

2. Pan fydd y grawnwin yn ddigon aeddfed i'w casglu (Chwefror i rawnwin i'w bwyta, Mawrth i rawnwin i'w troi'n rhesins) maen nhw'n cael eu casglu mewn biniau neu fagiau ac yna eu sychu mewn iardiau arbennig yn yr haul am rhwng 12 a 15 diwrnod mewn cynhwysyddion plastig.

3. Yna, mae'r rhesins yn cael eu casglu a'u cadw yn y gwaith prosesu. Mae'r broses yn dechrau gyda thynnu'r coesau ac yna bydd y rhesins yn cael eu glanhau cyn eu didoli'n dri maint a'u cadw.

4. Cyn eu pacio a'u hanfon i'r DU, bydd y rhesins yn cael eu golchi eto ac yna'n mynd trwy sganiwr laser a llaw bigo. Yn olaf maen nhw'n cael eu rhoi mewn bagiau a'u pacio mewn cartonau 15cilogram.

Mae cynhyrchu rhesins yn dibynnu ar dywydd da. Yn 2009 – 10 dioddefodd ffermwyr grawnwin Cymdeithas Gydweithredol Amaethyddol Eksteenskuil yn Ne Affrica galedi ar ôl cynhyrchu 25% yn llai o resins na'r flwyddyn cynt oherwydd cyfnod oer iawn ger yr Afon Orange.